



YSGOL GYFUN GYMRAEG
GLANTAF
CORON GWLAD EI MAMIAITH

Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf

Heol y Bont, Ystum Taf
Caerdydd, CF14 2JL

Pennaeth/Head:
Mr Matthew H T Evans

029 2033 3090

ysgolgyfunlantaf@caerdydd.gov.uk

www.glantaf.cymru

10 Mehefin 2022

Annwyl Rieni / Warcheidwad,

Urdd Eisteddfod – Dinbych 2022

Roedd yn wych dychwelyd i faes yr Eisteddfod dros hanner tymor a phrofi cyffro'r ŵyl ieuentid unigryw hon. Eleni, roedd pob disgybl, grŵp ac ensemble yn gallu perfformio ar un o dri phrif lwyfan yn yr Eisteddfod a oedd yn sicrhau bod gan bob cystadleuydd y profiad o berfformio mewn gofod proffesiynol a gwerthfawrogol. Roedd llwyddiannau Glantaf yn niferus wrth i fyfyrwyr ddod i'r amlwg o fewn cystadlaethau llenyddiaeth (Heledd Newton), cyfansoddi (Caleb Griffiths a Milo Davies), celf a dylunio (Cadi Davage, Beca Davage, Martha King) ond hefyd mewn sawl perfformiad ar y prif lwyfanau. Hoffwn nodi yn arbennig ein enillwyr medal aur ac arian: Remy Segrott (Cello); Megan Jones (Pres); Betsan Lees; Lili Mohammed, Nansi Rhys Adams (Lleisiol); Mari Fflur Thomas (Llefaru) ac Elen Morlais (Dawns) yn ogystal â Chôr Bechgyn Iau (Aur) a Chôr Merched Hŷn ac Ensemble Offerynnol (Arian). Llongyfarchiadau gwresog hefyd i Nansi am dderbyn Ysgoloriaeth Eisteddfod o £2,000 yn dilyn ei llwyddiannau sylweddol ac i'n cyn-ddisgybl Ioan Williams ar ennill lle yng nghystadleuaeth Ysgoloriaeth Bryn Terfel!



Megan, Remy, Betsan a Nansi

Her Haf *dim ffonau* 2022

Yr wythnos hon rydym wedi lansio ein Her Haf sy'n cynnwys tri ffwocws penodol i fyw bywyd mwy iach. Yn gyntaf, lleihau dibyniaeth ar y ffôn ac amser sgrin drwy gyfyngu ar ddefnyddio ffonau yn ystod y dydd. Yn ail, cynyddu gweithgaredd corfforol, gan hybu seiclo a cherdded i'r ysgol, ac yn olaf canolbwyntio ar sgiliau cymdeithasol a chyfathrebu, drwy siarad yn garedig yn ogystal â chyfarfarch a diolch i'n gilydd yn ystod y dydd. Dangosodd astudiaethau diweddar yn y DU (2019), fod plant 5-7 oed ar gyfartaledd yn treulio 4 awr y dydd ar y sgrin; mae hyn yn cynyddu i 4.5 awr ar gyfer plant 8-11 oed ac yn codi eto i 6.5 awr i ardegwyr. Mae astudiaethau yn dilyn y pandemig yn awgrymu y gallai hyn fod yn 8 awr y dydd ymhlith rhai grwpiau yn eu harddegau. Rydym yn siŵr eich bod yn rhannu ein pryderon ynghylch dibyniaeth disgyblion ar ffonau yn ogystal â'n profiad fel oedolion am ddylanwad cynyddol ffonau yn ein bywydau. Dyma'r sail ar gyfer her '*dim ffonau*' yr haf, sef hyrwyddo cymuned ysgol fwy iachus a charedig, yn ogystal ag addysgu'n pobl ifanc ar ddefnydd mwy cytbwys o'u ffonau. Rydym yn eich gwahodd yn gynnes i ymuno â'r her hon, gwirio eich amser sgrin (gwiriwch y tab gosodiadau ar eich ffôn symudol). Efallai y byddwch yn synnu at eich defnydd eich hun! Yn olaf, rydym yn ymwybodol iawn bod llawer ohonoch eisoes wedi trafod y mater hwn gyda'ch plant, ac mae ymateb disgyblion yr wythnos hon wedi bod yn galonogol iawn – *diolch yn fawr*.

Clwb Gwaith Cartref : pob nos iau hyd at 4pm

Nodyn i'ch atgoffa bod croeso i ddisgyblion Bl 7 ac 8 yn ein clwb gwaith cartref tan 4pm bob dydd iau, am fwy o fanylion cysylltwch â Mrs C Arnopp ar arnoppc@hwbcymru.net



Côr Merched Hŷn 2022



Dathliadau'r côr bechgyn iau!

Brechiadau HPV

Byddwch wedi derbyn gwybodaeth am y brechiadau HPV sydd ar y gweill ar gyfer pob disgybl ym Mlwyddyn 8 ar y 24ain o Fehefin. Mae'r cynnig hwn yn cael ei ymestyn i bob disgybl nad ydynt eto wedi derbyn eu dos cyntaf o'r brechlyn ym mlynnyddoedd 9-11. Dylech fod wedi derbyn llythyr ynghylch y rhaglen imiwnedd hon os nad yw eich plentyn wedi cael ei ddos gyntaf. I'r disgyblion hynny yn Bl 9-11 nad ydynt wedi derbyn eu hail frechlyn, cysylltwch â'r rhif hwn i drefnu apwyntiad: 07969732790 gan na fydd hyn yn cael ei gynnig yn yr ysgol.



Deuawd Lili a Nansi

Gweithdy Drama

Diolch i Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant am ymuno â ni i gynnig gweithdy Drama i FI9 gyda eu myfyrwyr BA Perfformio wrth iddynt baratoi at berfformiad o "Crazy for You".

Deddf Newydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (ALNET 2018)

Mae'r system ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig ac anabledd yng Nghymru wedi newid ers mis Ionawr 2022. Mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno system fwy hyblyg i ymateb i ddiwallu anghenion plant ag AAA neu anabledau ac yn ymdrechu i ddarparu system addysg gwbl gynhwysol i ddysgwyr Cymru. Yr ail garfanau i gael eu heffeithio yw disgyblion sydd yn Bl8 a Bl9 ym mlwyddyn academaidd 21/22 a byddant yn symud yn raddol i'r system newydd yn ystod Medi 22/23. Mae'r ddolen hon yn darparu'r wybodaeth i rieni [210326-cod-anghenion-dysgu-ychwanegol-cymru-2021.pdf \(llyw.cymru\)](#) Byddwn yn ysgrifennu at rieni ar wahân i rannu'r newidiadau penodol yn fanylach. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Mrs C Arnopp, Pennaeth Cynorthwyol a CADY arnoppc@hwbcymru.net

Profion Cenedlaethol Bl 7-9, Arholiadau Bl 10 a chroeso nôl i FI12

Bydd pob disgybl Bl 7-9 yn cwblhau eu Profion Cenedlaethol Cymraeg, Saesneg a Rhifedd yr wythnos nesaf 13-24 Mehefin ac maent wedi bod yn ymarfer gyda chyn-bapurau yr wythnos hon. Mae pob disgybl wedi cael amserlen o'r asesiadau hyn. Gan fod Bl10 yng nghanol eu harholiadau, a allwn ni atgoffa disgyblion yn garedig i aros yn yr ysgol ac i ddychwelyd i'w gwersi arferol ar ôl pob arholiad. Bydd Bl12 yn dychwelyd i wersi, ddydd Llun 13 Mehefin, (wyth1).

I ddod...

Wrth i ni ddechrau hanner tymor prysur, rydym yn edrych ymlaen at nifer o weithgareddau yn ystod yr wythnosau nesaf: Dathlu mis balchder LHDTQ+ yn ystod Meh, gweithdy hanes Bl9 ar gofebion rhyfel (17 Meh) / Gŵyl Tafwyl (18-19 Meh) / Cystadleuaeth *Debate Mate* (22 Meh) / Athletau Ysgol (23 Meh) / Arddangosfa Celf Glantaf (28 Meh) / Bl 11 > 12 gweithgareddau pontio (o 28 Meh>) / Mabolgampau Cynradd 30 Meh / Dydd Pontio Bl 6 1 Gorff / Noson Agored Bl 6 4&5 Gorff.

Newyddion da yr wythnos hon bod ein timau Athletau yn Bl8 a 9 wedi'u coroni'n Bencampwyr Sir gyda nifer o ganlyniadau rhagorol i athletwyr unigol. Llongyfarchiadau i Bencampwyr Pêl-droed Cenedlaethol, merched dan 13, a bechgyn dan 15 oed ar ennill eu gemau terfynol yn Stadiwm Dinas Caerdydd cyn y gwyliau - noson wych i ddisgyblion Glantaf! Llongyfarchiadau Alyas ac Elan! I gloi, nodyn i'ch atgoffa o'n diwrnod HMS olaf eleni: **Dydd Mercher 29 Mehefin** pan fydd yr ysgol ar gau ar gyfer pob disgybl.

Yn gywir,

Matthew H T Evans

Pennaeth

Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf



Dau gapten llawen: Alyas ac Elan